Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Babanod Llanfairfechan
Ffordd Y Pentref
Llanfairfechan
Conwy
LL33 0AA

06/11/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Hydref 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Babanod Llanfairfechan yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

## Herio pob un o'r disgyblion i wella'u medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

- Mae gan arweinwyr weledigaeth addas ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu disgyblion.
- Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau staff yn briodol. Mae hyn, yn ei dro, yn cynorthwyo staff i gynllunio ymagwedd gyson at ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion ar draws yr ysgol.
- Mae'n ddyddiau cynnar o ran newidiadau diweddar i ymagwedd yr ysgol at ddatblygu gwybodaeth disgyblion am seiniau llythrennau, ac mae arweinwyr yn cydnabod nad yw hyn wedi ei wreiddio'n llawn hyd yma.
- Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth yn cynorthwyo disgyblion i gaffael medrau ysgrifennu cynnar yn gyflym.
- Mae gweithgareddau dysgu yn herio llawer o ddisgyblion yn briodol. Yn gyffredinol, mae adborth gan athrawon yn cynorthwyo disgyblion i nodi'r hyn maent wedi'i wneud yn dda a sut gallant wella'u hysgrifennu. Ar adegau, nid yw adborth yn canolbwyntio'n ddigon agos ar agweddau sy'n benodol i genre.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau, ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da dros gyfnod.
- Mae arweinwyr yn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu ysgrifennu yn briodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau a meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i addasu darpariaeth yn briodol.

### Cryfhau'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion

- Mae arweinwyr yn rhoi ffocws strategol cryf ar ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion.
- Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr, lle bo'n briodol, i staff wella'u medrau siarad Cymraeg. Mae hyn yn datblygu eu hyder a'u gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn bwrpasol o fewn gweithgareddau ffurfiol a llai ffurfiol.
- Mae staff yn eiriolwyr cryf dros y Gymraeg ac yn ei modelu'n dda trwy gydol y diwrnod ysgol. Mae sesiynau ymarfer rheolaidd ac ystod briodol o adnoddau yn cynorthwyo disgyblion i ddysgu geirfa bob dydd a phatrymau iaith syml yn effeithiol.
- Mae staff yn cydweithio'n bwrpasol ag ysgolion lleol i sefydlu dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant ym medrau siarad Cymraeg disgyblion dros gyfnod.
- Mae staff yn cynllunio cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn briodol ar draws y cwricwlwm. O oedran cynnar, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau ystafell ddosbarth sylfaenol yn Gymraeg, ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg. Dros gyfnod, maent yn datblygu eu medrau yn gyson, gan ehangu eu geirfa'n briodol ac yn dechrau gofyn ac ateb cwestiynau syml â hyder cynyddol.
- Mae disgyblion yn ymgymryd â rolau arwain yn frwdfrydig ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn y gymuned. Mae hyn yn meithrin ymdeimlad o falchder yn yr iaith ac yn ymestyn defnydd o'r iaith y tu hwnt i'r ysgol yn bwrpasol.
- Mae arweinwyr wedi datblygu partneriaeth werthfawr ac effeithiol â'r cylch chwarae ar y safle i hyrwyddo datblygiad plant yn y Gymraeg. Mae'r dull cydweithredol hwn yn cael effaith gadarnhaol ar allu disgyblion i ddefnyddio geirfa Gymraeg sylfaenol wrth iddynt bontio i'r ysgol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ysgol-babanod-llanfairfechan-cy/

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol